Credwch mewn plant
Believe in children
Barnardo's
Cymru

# Ymateb Barnardo's Cymru i'r Ymgynghoriad

## Canllawiau Drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb


**Elaine Speyer**
**01/04/2019**

elaine.speyer@barnardos.org.uk

Uned Polisi ac Ymchwil Barnardo's Cymru
Uned 11
Y Swyddfeydd
Stad Ddiwydiannol Village Farm
Y Pîl
Pen-y-bont ar Ogwr
CF33 6BJ


- **Mae'n bosib y caiff yr ymateb hwn ei wneud yn gyhoeddus**
- **Mae'r ymateb hwn yn cael ei gyflwyno ar ran Barnardo's Cymru**

Mae Barnardo's Cymru yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru ers dros 100 mlynedd, ac mae'n un o'r elusennau plant mwyaf sy'n gweithio yn y wlad. Ar hyn o bryd, rydym yn cynnal 86 o wasanaethau amrywiol ledled Cymru, gan weithio mewn partneriaeth ag 16 o'r 22 awdurdod lleol. Y llynedd, buom yn gweithio gyda mwy na 7,000 o blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Er bod ein gwasanaethau yn rhai amrywiol eu natur, mae pob un ohonyn nhw'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n agored i niwed. Mae plant a phobl ifanc rydym yn eu cynorthwyo yn dweud yn rhy aml fod yr addysg rhyw a pherthnasoedd maen nhw wedi'i chael yn annigonol, nad oedd yn eu cynrychioli nhw, neu eu bod wedi cael eu heithrio o wersi. Rydym hefyd wedi dod yn ymwybodol o'r anghysonderau sylweddol yn narpariaeth yr addysg hon ar hyd a lled Cymru, lle mae darpariaeth wael wedi arwain at ddiffyg diddordeb yn aml iawn. Yn ein barn ni, mae hyn yn golygu bod gormod o blant a phobl ifanc yn cael eu gadael yn agored i gamfanteisio posib, ac ni all hyn barhau. Mae bechgyn yn arbennig yn agored iawn i niwed yn sgil yr ymatebion proffesiynol maen nhw'n eu cael yn yr elfen hon, gan fod tuedd i dderbyn eu hymddygiad fel y mae, yn hytrach nag ymchwilio i weld beth sy'n achosi eu trallod.[1]

Mae pwyslais ar iechyd a lles yn y cwricwlwm newydd, gan gynnwys addysg cydberthynas a rhywioldeb, sy'n golygu ei fod yn cael yr un sylw â rhannau eraill o'r cwricwlwm. Mae hyn yn gam pwysig er mwyn grymuso a chefnogi lles plant a phobl ifanc ar hyd a lled Cymru.

Fel aelod o'r Panel o Arbenigwyr Addysg Rhyw a Pherthnasoedd, rydym yn cymeradwyo'r holl argymhellion yn yr adroddiad i Lywodraeth Cymru ar Ddyfodol y Cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yng Nghymru. Rydym yn edrych ymlaen at y canllawiau newydd, a fydd yn dweud yn gliriach sut bydd yr argymhellion hynny'n cael eu rhoi ar waith.

## Diffiniad

Mae Barnardo's Cymru yn cefnogi'r rhesymeg sydd wrth wraidd y canllawiau newydd, yn ogystal â'r enw newydd. Mae ein mudiad yn cydnabod pwysigrwydd perthnasoedd cadarnhaol o bob math i les y plant, y bobl ifanc a'r teuluoedd rydym yn gweithio gyda nhw, felly

[1] Beech, A et al. Development of tools and resources to better identify and engage young males at risk of Child Sexual Exploitation and Child Sexual Abuse. Barnardo's Cymru

rydym yn croesawu’r sylw amlwg a roddir i berthnasoedd yn y ddogfen.

Mae llawer o’r bobl ifanc rydym yn eu cynorthwyo wedi dweud wrthym ni eu bod wedi teimlo nad yw’r addysg perthnasoedd heteronormadol a biolegol maen nhw wedi’i chael yn eu cynrychioli nhw fel unigolion, na'r perthnasoedd y byddan nhw’n eu cael.  Rydym yn falch o weld bod rhywioldeb yn rhan ganolog o’r elfen hon yn y cwricwlwm – newid a fydd, gobeithio, yn sicrhau agwedd fwy cynhwysol, ystyrlon ac eang at addysg perthnasoedd.

**Dyletswyddau Cyfreithiol**
Gan na fydd y canllawiau hyn yn newid seiliau statudol presennol y broses o ddarparu addysg cydberthynas a rhywioldeb, rydym yn dal yn poeni y bydd yr anghysonderau yn yr elfen hon yn parhau yn y tymor byr o leiaf. Ar hyn o bryd, nid yw’n ofynnol yn gyfreithiol i rai ysgolion addysgu plant am berthnasoedd a rhywioldeb. Felly mae’n bosib y byddan nhw’n blaenoriaethu elfennau eraill o’r cwricwlwm presennol, y maen nhw’n cael eu hasesu’n rheolaidd arnynt, ar draul eu haddysgu am berthnasoedd a rhywioldeb.

Hefyd, mae llawer o’r plant a’r bobl ifanc rydym ni’n gweithio gyda nhw wedi cael eu heithrio o’r elfen hon o’u haddysg oherwydd anawsterau ymddygiad, neu anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn destun pryder mawr, gan fod y plant a’r bobl ifanc hyn yn gallu bod yn fwy agored i niwed wrth ddechrau perthynas neu ddatblygu’n rhywiol.

Mae’n allweddol i hawliau pobl anabl bod ganddyn nhw fynediad at addysg sy’n eu galluogi i gymryd rhan lawn mewn cymdeithas, ac i fyw bywyd sy’n llawn ac maen nhw’n ddiogel ynddo. Nid yw’n glir yn y canllawiau arfaethedig pa ddarpariaeth y mae’n rhaid i ysgolion arbennig ac ysgolion cynradd ei darparu fel gofyniad statudol, na pha bolisïau ddylai fod ar waith er mwyn sicrhau bod yr holl ddysgwyr mewn ysgolion prif ffrwd yn gallu cael gafael ar y ddarpariaeth hon.

Rydym ni’n credu y gallai’r ddogfen ganllawiau gynnig mwy o gyfle i greu newid cadarnhaol nawr, cyn y cwricwlwm newydd, petai’n fwy cynhwysfawr o ran sut gall ysgolion newid eu dull gweithredu er mwyn cyd-fynd ag ethos y cwricwlwm newydd. Rydym yn cydnabod yr angen i athrawon ac ysgolion fod yn annibynnol, ac felly i beidio â bod yn rhy gyfarwyddol. Ond mae gofyniad, fel y nodwyd yng nghynigion strwythurol y cwricwlwm, i amlinellu sut dylid gwreiddio elfennau o’r cwricwlwm gan ddefnyddio rhesymeg a datganiad o’r hyn sy’n bwysig,

cymorth cynllunio a disgrifiadau dysgu.[2] Mae'n ymddangos bod yr elfen hon o'r canllawiau ar goll.

Rydym ni'n credu y bydd cryfhau'r elfennau canlynol o'r canllawiau yn helpu i sicrhau y bydd proses ysgolion o newid i'r cwricwlwm newydd yn llai problemus, ac y bydd yr addysg cydberthynas a rhywioldeb yn cryfhau.

**Dull ysgol gyfan**
Fel mudiad, rydym yn llwyr gefnogi dull ysgol gyfan o ran addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae digon o dystiolaeth bod y dull hwn yn arwain at well canlyniadau lles i blant, ac yn cadarnhau eu gwybodaeth. Byddem yn argymell rhoi mwy o arweiniad i ysgolion ar gyfer datblygu'r dull hwn, fel y nodwyd yn y Canllawiau Arfer Da ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol er enghraifft.

**Hyfforddiant**
Mae addysgu a datblygu athrawon yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod y dull ysgol gyfan yn cael ei roi ar waith yn llwyddiannus ar gyfer addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r gwaith ymchwil rydym ni wedi'i wneud,[3] [4] ochr yn ochr ag ymchwil sefydliadau eraill, wedi dod o hyd i fwlch yn yr hyfforddiant sydd ar gael i athrawon ar gyfer yr elfen allweddol hon o'r cwricwlwm.[5] Mae athrawon wedi dweud wrthym bod y bwlch hwn wedi arwain at ddiffyg hyder ac at ddryswch ar brydiau, o ran sut i ddelio â'r pwnc yma yn yr ystafell ddosbarth. Felly, byddem yn disgwyl y byddai rhaglen datblygiad proffesiynol a hyfforddiant effeithiol ar gael i athrawon er mwyn ategu'r canllawiau.

**Canlyniadau a monitro**
Mae canlyniadau a monitro yn hollbwysig er mwyn cyflwyno addysg cydberthynas a rhywioldeb mewn ffordd ystyrlon. Dylai'r canllawiau gynnwys gwybodaeth fwy cyfredol ynghylch yr hyn a fydd yn ddisgwyliedig gan ysgolion yn statudol, er mwyn sicrhau mwy o gysondeb ac eglurder o ran yr addysg y dylai plant a phobl ifanc ei chael, a beth y dylen nhw ei gyflawni drwy eu haddysg.

---

[2] Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru. "Ein Cenhadaeth Genedlaethol: Cwricwlwm Trawsnewidiol. Cynigion ar gyfer fframweithiau deddfwriaethol newydd."
[3] IBID
[4] http://www.barnardos.org.uk/17595_bs_i_never_spoke_about_it_cse_report_e.pdf

[5] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-y-cwricwlwm-addysg-rhyw-a-pherthnasoedd-yng-nghymru.pdf

Gallai’r canllawiau amlinellu’r nodweddion a ragwelir a fydd gan ddysgwyr, fel y nodir yn y cynigion ar gyfer fframwaith cyfreithiol newydd y cwricwlwm. Gallai hyn hefyd sicrhau bod proses ar waith i fonitro’r ddarpariaeth hon, cyn i’r cwricwlwm gael ei lansio.

Mae’r datblygiadau yn y trefniadau asesu, a fydd yn cael eu cyflwyno gyda’r cwricwlwm newydd, yn galonogol. Mae’r ffaith y bydd yr asesiadau hynny’n canolbwyntio ar y dysgwr unigol, a hefyd yn sicrhau cysondeb ledled Cymru, yn addawol. Fodd bynnag, nid yw’n ymddangos bod y canllawiau’n cyfeirio at fanylion yr asesiadau.

**Cyllid**

Wrth ystyried y pwysau ariannol y mae llawer o ysgolion yng Nghymru yn eu hwynebu, mae’n hanfodol bod y gwelliannau sy’n ofynnol er mwyn gwreiddio addysg cydberthynas a rhywioldeb yn llwyddiannus yn cael eu hariannu’n ddigonol. Os caiff yr elfen hon o’r cwricwlwm ei hariannu’n briodol, rydym ni’n credu y bydd hynny’n arwain at ddull gweithredu cryfach a mwy cyson – heb hynny, mae perygl y gallai diffygion y ddarpariaeth bresennol barhau. Mae buddsoddi’n briodol mewn addysg cydberthynas a rhywioldeb yn debygol o leihau’r pwysau ar wasanaethau yn y dyfodol, ac yn siŵr o arwain at well canlyniadau lles i genedlaethau'r dyfodol.